Y Pwyllgor Cyllid
Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17
WGDB_16-17 20 Comisiynydd y Gymraeg

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7/1/2016

**Annwyl Jocelyn Davies**

Hoffwn gyflwyno'r dystiolaeth ganlynol mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016 – 17.

**Gan edrych ar ddyraniadau cyllideb ddrafft 2016-17, a oes gennych unrhyw bryderon o safbwynt strategol a chyffredinol, neu ynglŷn ag unrhyw feysydd penodol?**

Rwyf wedi derbyn toriadau ariannol i'm cyllideb dros y 2 flynedd diwethaf, gyda thoriad pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. I'w chymharu â chyllideb o £4,100,000 ar gyfer 2013-14, derbyniwyd toriad o £410,000 (10%) ar gyfer 2014-15 a thoriad o £300,000 (8%) ar gyfer 2015-16. Er nad yw cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn nodi'n benodol beth fydd y gyllideb ar gyfer 2016-17, derbyniais lythyr gan y Prif Weinidog ar 23 Rhagfyr yn fy hysbysu o doriad arall o 10%. Byddai hyn yn doriad pellach o £339,000, gan adael cyllideb flynyddol o £3,051,000. Golyga hynny bydd y sefydliad wedi derbyn toriadau mewn termau ariannol o 26% mewn 3 blynedd (32% mewn termau real ar ôl ystyried effaith chwyddiant).

**Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion cyllideb ddrafft 2016-17? Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod?**

Er mwyn lliniaru effaith y toriadau nododd y Prif Weinidog yn ei lythyr ataf ar 23/12/2015 y byddai £150,000 yn ychwanegol ar gael ar gyfer 2015-16 er mwyn fy ngalluogi i rag-

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

gynllunio a gosod seiliau ar gyfer y rhaglen dreigl heriol sydd i ddod yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg. Gwnaed hyn yn sgil darparu papur safbwynt iddo am y gofynion sy'n ddisgwyliedig arnaf fel Comisiynydd ac oherwydd bod y pwysau o roi'r gyfundrefn safonau ar waith ar ei anterth. Rwyf wedi paratoi amcangyfrif ariannol er mwyn gallu ymateb i ofynion Mesur y Gymraeg. Er ei bod yn bosibl cynllunio'n ddarbodus ar gyfer lleihad mewn cyllideb mewn cysylltiad â rhai agweddau gwaith mae angen cydnabod nad yw nifer yr heriau ar apelâu y gallasai'r Comisiynydd eu derbyn neu fod yn barti iddynt na nifer y cwynion a'r ymchwiliadau gofynnol yn ragweladwy.

Fel a ddigwyddodd yn 2015 – 16, rwy'n dymuno gweld llinell benodol yn y gyllideb derfynol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg.

**Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod?**
Wrth ystyried y Gymraeg fel pwnc llorweddol ni cheisiwyd barn Comisiynydd y Gymraeg mewn cysylltiad â'r nod llesiant ieithyddol wrth baratoi'r gyllideb. Rwy'n ymwybodol y mynegwyd pryderon am doriadau cyllidebol yng nghyswllt gwariant ar y Gymraeg gan fudiadau diddordeb.

Mae croeso i chi gysylltu gyda mi os oes unrhyw fater arall yr hoffech ei drafod.

Yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg